amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Duw yn creu y byd

DARLLENWCH
Genesis 1: 1-19

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw yn gwneud y nefoedd a'r ddaear.

Ydych chi'n hoffi gwneud pethau? Efallai'ch bod chi'n hoffi chwarae â Lego. Dyna i chi lawer o frics, ffenestri a drysau y mae'n rhaid eu cael i godi tŷ!
Pan wnaeth Duw y byd, roedd pethau'n wahanol iawn! Mae'r Beibl yn dweud wrthym ni, "Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear". Ystyr hyn yw bod Duw wedi'u gwneud nhw o ddim byd. Mae Duw mor fawr fel mai dim ond siarad roedd rhaid iddo'i wneud er mwyn creu'r byd cyfan.
Mae Duw am i ni fwynhau popeth y mae Ef wedi'i wneud. Pan fyddwn ni'n gweld yr holl bethau hyfryd yn y byd, fe ddylen ni gofio mai Duw sydd wedi eu gwneud nhw ac fe ddylen ni ddiolch iddo amdanyn nhw.

Lliwiwch y geiriau hyn o'r Beibl.

"Daeth pob peth i fod trwyddo ef."

Ioan 1: 3

Enw

Stori 2 Duw yn creu anifeiliaid a dyn

DARLLENWCH
Genesis 1: 20-2: 3

Ambell waith, rydyn ni'n cael siom achos nad yw'r pethau rydyn ni'n eu gwneud yn ddigon da. Pan wnaeth Duw y byd fe welodd Ef fod popeth yn dda iawn!

(Tynnwch linell trwy'r atebion anghywir isod)

Mae'r stori yma'n sôn am:
Y dyn cyntaf.

FE DDYWEDODD DUW | **Mae'n ddrwg** | **Mae'n dda** | **Mae'n anghywir**

Os ydych chi wedi bod mewn sŵ, rydych chi wedi gweld llawer iawn o anifeiliaid. Dim ond Duw sydd yn gallu gwneud pethau mor ardderchog. Ar y chweched dydd, dydd olaf y creu, fe wnaeth Duw anifeiliaid. Y jiraff â'i wddf hir, y llew a'r teigr â'u dannedd miniog, Duw wnaeth y cwbwl ohonyn nhw. Yna, fe gymerodd Duw ychydig o lwch o'r ddaear a gwneud y dyn cyntaf! Fe ddaeth y dyn yn fyw pan anadlodd Duw ynddo. Enw'r dyn cyntaf oedd Adda.

Lliwiwch y darlun ac ysgrifennwch enw'r dyn cyntaf yn y blwch o dan y llun.

Enw

Stori 3 Y dyn cyntaf a'r wraig gyntaf

DARLLENWCH
Genesis 2: 4-25

Mae'r stori yma'n sôn am:
Gwraig Adda

Roedd Adda'n byw mewn gardd brydferth iawn o'r enw Gardd Eden. Yma, fe gafodd bopeth yr oedd arno'i angen gan Dduw - bwyd a dŵr. Fe ddywedodd Duw hefyd wrth Adda am edrych ar ôl yr ardd.



Beth oedd enw'r man lle roedd Adda'n byw?

G _ _ _ _ **E** _ _ _ _ .

Ydych chi erioed wedi cael eich gadael ar eich pen eich hun? Yn aml, dydi hi ddim yn braf bod ar eich pen eich hun. Doedd Duw ddim am i Adda fod ar ei ben ei hun.

Roedd llawer o anifeiliaid, adar, coed a phlanhigion hardd o amgylch Adda, ond roedd Duw yn gwybod bod angen rhywun arbennig arno i fyw gydag ef yn yr ardd.

Fe wnaeth Duw i Adda gysgu'n drwm, a phan oedd Adda'n cysgu fe wnaeth Duw y wraig gynta. Efa oedd ei henw.

Roedd gan Adda gwmni nawr. Roedd ganddo rywun i fod yn wraig iddo ac yn gwmni wrth iddo ofalu am yr ardd a gafodd gan Dduw.

Lliwiwch yr adnod isod a dysgwch hi.

"**Eiddo'r** **Arglwydd** **yw'r** **ddaear** **ai'r** **llawnder.**"

Salm 24: 1

Enw

Stori 4 Byd Duw yn cael ei ddifetha

DARLLENWCH
Genesis 3: 1-24

Mae'r stori yma'n sôn am:
Pechod yn dod i'r byd.

Roedd Duw wedi dweud wrth Adda ac Efa y gallen nhw fwyta ffrwyth pob coeden yn yr ardd ar wahân i un. Un diwrnod dyma Satan, gelyn Duw, yn dod i'r ardd yn edrych fel sarff. .



Pwy yw gelyn Duw?
S _ _ _ _ .

Fe ddywedodd Satan wrth Efa y byddai hi mor glyfar â Duw pe bai hi'n bwyta ffrwyth y goeden honno! Felly dyma hi'n bod yn anufudd i Dduw ac yn cymryd peth o'r ffrwyth. Fe roddodd beth i Adda a dyma'r ddau yn ei fwyta.

Mae peidio â gwrando ar Dduw yn bechod!

Fe anfonodd Duw Adda ac Efa allan o'r ardd. Roedd eu pechod wedi sbwylio yr hyn yr oedd Duw wedi ei greu, ac wedyn doedden nhw ddim yn ffrindiau â Duw.
Addawodd Duw y byddai Satan yn cael ei ddinistrio ac y byddai yna ffordd wedyn i bobl fod yn ffrindiau ag ef eto. Fe ddigwyddodd hyn i gyd pan ddaeth Iesu Grist i'r byd a marw ar y groes dros bechaduriaid. Fe gymerodd Iesu Grist y gosb am ein pechodau ni. Fe gawn ni faddeuant pan wnawn ni

ymddiried ynddo Ef.

Lliwiwch y geiriau uchod.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120